



# Aseiad Lles Lleol Sir y Fflint

## - Crynodeb

Ebrill 2017



FLINTSHIRE PUBLIC SERVICES BOARD  
BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS SIR Y FFLINT

# ASESIAD LLES LLEOL SIR Y FFLINT - CRYNODEB

## CYFLWYNIAD

Mae'r gymdeithas a'r gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn parhau i wynebu heriau sylweddol wrth fynd ati i reoli effeithiau tldi, annog twf economaidd a chreu swyddi a chyfoeth, cwrdd gofynion tai, darparu dulliau addas a diogel o ofalu ar gyfer poblogaeth sy'n heneiddio, a mynd i'r afael ag effeithiau newid hinsawdd.

Mae partneriaid y sector cyhoeddus a'r trydydd sector yn Sir y Fflint, ac ar draws Cymru, eisoes yn gweithio'n agos â'i gilydd er mwyn cyfuno eu hadnoddau wrth reoli heriau newidiadau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ddarn newydd heriol o ddeddfwriaeth a hyrwyddir gan Lywodraeth Cymru. Diben y ddeddf arloesol hon yw gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru nawr ac ar gyfer yr hir dymor.

Yn sail i'r Ddeddf y mae saith nod lles:

1	Cymru ffyniannus	Cynnal economi gref drwy greu swyddi, cyrhaeddiad sgiliau a chreu cyfoeth.
2	Cymru wydn	Gofalu am yr amgylchedd naturiol a'i warchod.
3	Cymru iachach	Darparu gwasanaethau gofal a chymorth o safon uchel ar gyfer y rheiny sydd ag anghenion iechyd meddwl a chorfforol a hyrwyddo dewisiadau ffordd o fyw amgen a chyfrifol er mwyn ymestyn dewis personol ac annibyniaeth.
4	Cymru fwy cyfartal	Rhoi cyfleoedd bywyd cyfartal i bawb beth bynnag fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau.
5	Cymru â chymunedau cydlynol	Cymunedau yn mwynhau safon bywyd, yn ddiogel ac wedi'u cysylltu'n dda, ac yn lleoedd lle mae pobl yn teimlo eu bod yn perthyn ac yn cefnogi ei gilydd.
6	Cymru gyda diwylliant bywiog ac iaith sy'n ffynnu	Mae treftadaeth, diwylliant a dwyieithrwydd yn cael eu gwerthfawrogi fel rhan o fywyd cymunedol ac yn darparu cyfleoedd ar gyfer gweithgarwch cymunedol a chyswllt cymdeithasol gwerthfawr.

7	Cymru fydol ymatebol	Gweithredu er mwyn gwarchod yr amgylchedd lleol a hyrwyddo ac annog ymgysylltiad cymunedol.
---	----------------------	---

Mae angen i bartneriaid sector cyhoeddus weithio gyda'i gilydd er mwyn cyflawni'r amcanion hyn. Y cam cyntaf ar gyfer partneriaid sector cyhoeddus yw gwneud dadansoddiad manwl o gyflwr 'llesiant' yn y cymunedau y maent yn eu gweini drwy ddefnyddio'r holl ddata sydd ar gael. Yr ail gam yw cytuno ar 'Gynllun Llesiant Lleol' ar gyfer cydweithio.

Mae Cynllun Llesiant Lleol Sir y Fflint yn cael ei ddatblygu gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint. Mae'r Bwrdd yn cynnwys uwch arweinwyr o nifer o sefydliadau cyhoeddus a gwirfoddol gan gynnwys y Cyngor, yr Heddlu a'r Gwasanaeth Tân ac Achub, y Bwrdd Iechyd, Cyfoeth Naturiol Cymru, addysg bellach ac addysg uwch, a'r sector gwirfoddol. Fe wnaeth y Bwrdd ddisodli'r hen Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Ebrill 2016.

Mae'r ddogfen hon yn grynodeb o'r Asesiad o Les Lleol drafft ar gyfer Sir y Fflint. Mae'r asesiad llawn ar gael ar wefan y Cyngor:

[www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Council-and-Democracy/Byrddau-Gwasanaethau-Cyhoeddus-Sir-Y-Fflint.aspx](http://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Council-and-Democracy/Byrddau-Gwasanaethau-Cyhoeddus-Sir-Y-Fflint.aspx)

### **Asesiad Lles Sir y Fflint**

Mae'r wybodaeth a gasglwyd i asesu Lles Sir y Fflint wedi ei chasglu o nifer o wahanol ffynonellau megis:

- Data Cyfrifiad 2001 a 2011
- Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS)
- Cyllid a Thollau EM
- Llywodraeth Cymru
- Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru
- Arolwg Iechyd Cymru
- Cyrff Sector Cyhoeddus Cymru, e.e. Heddlu Gogledd Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Mae'r asesiad yn rhoi darlun cyfoes o fywyd a lles yn Sir y Fflint.

Y themâu a gynhwysir yn yr asesiad yw'r pethau sy'n bwysig i chi. Hoffem i chi ddweud wrthym a yw'n rhoi darlun o'r Sir y Fflint yr ydych chi'n ei adnabod.

## ***Proffil Sir y Fflint***

### ***Poblogaeth***

Mae poblogaeth Sir y Fflint yn 154,000 ar hyn o bryd, a disgwylir iddo dyfu i 157,554 erbyn 2039.

### ***Crefydd***

Er gwaethaf gostyngiad mewn niferoedd ers 2001, arhosodd Cristnogaeth y grefydd fwyaf, gyda 66.4% o'r boblogaeth yn nodi eu bod yn Gristnogion. At ei gilydd, mae nifer y bobl sydd â chrefydd heblaw Cristnogaeth wedi dyblu bron rhwng 2001 a 2011, o 800 i 1,450. O fewn y nifer hwn, Mwslimiaid oedd yn ffurfio'r grŵp crefyddol mwyaf.

### ***Ethnigrwydd***

Yng Nghyfrifiad 2011, nododd 95.9% o bobl sy'n byw yn Sir y Fflint eu grŵp ethnig fel 'Gwyn Prydeinig'. Mae hyn yn cymharu â 93.2% ar draws Cymru, ac 80.5% ar draws Cymru a Lloegr. Yn 2001, canran y bobl a gofnodwyd fel 'Gwyn Prydeinig' yn Sir y Fflint oedd 97.7%.

Roedd pob ethnigrwydd arall a gasglwyd yng nghyfrifiad 2011 yn cyfateb i 1.0% o boblogaeth Sir y Fflint neu tua 1,500 o bobl. Y grŵp ethnig mwyaf yn y cyfanswm hwn oedd Tseiniaidd, gyda 0.2% o'r boblogaeth, neu tua 300 o bobl.

### ***Hunaniaeth genedlaethol***

Yng Nghyfrifiad 2011, cofnododd 97.1% o drigolion Sir y Fflint eu hunaniaeth genedlaethol naill ai yn Gymraeg, Saesneg, Albanaidd, Gwyddelig Gogledd Iwerddon, neu Brydeinig.

## **Sir y Fflint Ffyniannus**

*Cynnal economi gref drwy greu swyddi, cyrhaeddiad sgiliau a chreu cyfoeth.*

### **Proffil Oedran Sir y Fflint**

Mae strwythur oed Sir y Fflint yn debyg iawn i gyfartaledd y Deyrnas Unedig gyda 61.5% o'r boblogaeth yn 16-64 oed (sy'n cyfateb yn fras i oedran gweithio). Mae canran Cymru yn 61.9% a chanran y Deyrnas Unedig yn 63.9%. Ar hyn o bryd mae nifer y bobl ifanc yn Sir y Fflint yn gymharol gadarn o gymharu â chyfartaledd y Deyrnas Unedig, ond mae tueddiadau diweddar mewn mudo yn debygol o effeithio ar nifer y bobl ifanc sy'n byw ac yn gweithio yn y sir. Mae cadw pobl ifanc yn Sir y Fflint yn bwysig iawn.

### **Addysg a Chyflawniad Ysgol**

Mae canran y bobl ifanc sy'n gadael ysgol heb gymhwyster a nifer y bobl ifanc nad ydyn nhw mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn isel. Yn 2015 dim ond 1.3% o'r bobl ifanc oedd ddim mewn addysg, hyfforddiant na gwaith; sef y ffigur isaf yng Nghymru a'r ffigur isaf i Sir y Fflint am yr ail flwyddyn yn olynol. Mae lefelau cymwysterau trigolion Sir y Fflint ar y cyfan yn gwella pob blwyddyn. Fodd bynnag, mae'r niferoedd sydd â chymwysterau NVQ4 neu uwch yn parhau i fod yn llawer is na chyfartaledd Cymru a'r Deyrnas Unedig.

### **Tlodi**

Ystyrir bod aelwyd mewn tlodi os yw cyfanswm incwm blynyddol y cartref (gan gynnwys budd-daliadau) yn is na chyfartaledd Prydain Fawr o 60%. Mae oddeutu 30% o gartrefi'r sir o dan y cyfartaledd hwn ac mae 5,770 o blant yn byw mewn tlodi.

### **Cyfleodd Cyflogaeth Lleol**

Mae Sir y Fflint yn lle deniadol i weithio ynddo gydag economi gref a pherfformiad cymharol da o ran twf swyddi. Mae cyfran uchel o'r trigolion (43%) yn gweithio'r tu allan i'r sir, ond mae hyn yn cael ei gydbwyso gan nifer uchel o bobl sy'n cymudo i mewn i Sir y Fflint i weithio. Mae cyflogaeth yn y sector gweithgynhyrchu yn llawer uwch na'r gyfradd genedlaethol (30% o gymharu â 8% ar gyfer Prydain Fawr ac 11% ar gyfer Cymru). Mae dibyniaeth isel ar y sector cyhoeddus ar gyfer cyflogaeth (19%) o gymharu â chyfartaledd Cymru (32%). Mae swyddi sgiliau uchel a swyddi cyflogau uchel e.e. sectorau cyllid, proffesiynol a gwyddonol, yn gymharol isel (19%) yn ogystal â swyddi sector twristiaeth (16%). Mae'r celfyddydau, adloniant a'r sector hamdden yn cyflogi tua 2,000 o bobl yn Sir y Fflint, sef oddeutu 3% o gyfanswm cyflogaeth yr ardal.

### **Asedau Economaidd**

Mae Glannau Dyfrdwy yn gartref i sectorau gweithgynhyrchu medrus a chyfoes iawn, o sectorau gweithgynhyrchu awyrofod a modurol i sectorau electroneg, fferyllol, adeiladu, bwyd ac ynni cynaliadwy. Cydnabyddir Glannau Dyfrdwy fel canolfan

economiaidd o bwys yng ngogledd Cymru a gogledd orllewin Lloegr ac mae'r dref wedi'i nodi yng nghynlluniau twf y ddwy ardal.

Mae Porth y Gogledd yng Nglannau Dyfrdwy yn safle datblygu strategol 90 hectar (222 erw); y safle sector preifat mwyaf yng ngogledd Cymru a gogledd orllewin Lloegr. Mae ganddo'r potensial i greu hyd at 7,000 o swyddi newydd a hyd at 1,200 o dai. Mae safle datblygu Warren Hall ym Mrychdyn yn cynnig 3,000 o swyddi newydd a 300 o dai newydd. Wrth symud gam yn nes at ddatblygu Porth y Gogleddol a Warren Hall, bydd Glannau Dyfrdwy yn gallu darparu cyfleoedd twf sylweddol yn y dyfodol.

### ***Busnesau Bychain***

Mae gan Sir y Fflint gyfran uchel o fusnesau bach, ar ôl gweld cynnydd o 15% ers 2011. Mae 73% o'r busnesau hyn yn cyflogi llai na 4 o bobl.

### ***Yr Economi Wledig***

Mae ffermwyr yn rheoli bron i 75% o dir Sir y Fflint a chyflogir dros 1,550 o bobl yn uniongyrchol yn y sector amaeth. Rhwng 2003 a 2013 cafwyd gostyngiad o 10% (o 1,709 i 1,556) yn nifer y bobl sy'n gweithio ym myd amaeth, yn bennaf oherwydd gostyngiad yn nifer y ffermwyr llawn amser a rhan-amser.

### ***Sgiliau ar gyfer Cyflogaeth***

Mae cymwysterau poblogaeth oedran gweithio Sir y Fflint ychydig yn is na chyfartaledd Cymru ond mae nifer y bobl heb gymwysterau yn is na chyfartaledd y Deyrnas Unedig. Mae cyfran lai o'r boblogaeth yn gymwys hyd at lefel gradd neu uwch (NVQ4+) ac mae merched ar y cyfan yn fwy cymwys na dynion.

O'i chymharu â gweddill Cymru, mae Sir y Fflint yn well am ddarparu prentisiaethau i bobl 16-24 oed. Fodd bynnag, mae darpariaethau dysgu eraill yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae gennym ni ddarpariaeth uwch na'r cyfartaledd o raglenni o fewn y sector peirianeg – 17% o brentisiaethau (8% ar gyfer Cymru) a 14% o'r holl raglenni (6% ar gyfer Cymru). Mae gan y sector gweithgynhyrchu hefyd gyfran uwch o raglenni dysgu o gymharu â chyfartaledd Cymru. Mae hyn yn adlewyrchu strwythurau cyflogaeth yr ardal, ac wedi'i ddylanwadu gan y cyrsiau sydd ar gael mewn sefydliadau addysg bellach lleol.

### ***Isadeiledd Priffyrdd***

Ffyrdd A a B Sir y Fflint yw'r gorau yng Nghymru (a hynny ers 3 blynedd bellach). Mae hyn yn allweddol i leihau tagfeydd ac aflonyddwch gwaith atgyweirio ac mae'n darparu isadeiledd dibynadwy i gefnogi twf a ffyniant.

## **Sir y Fflint Gref**

*Gofalu am yr amgylchedd naturiol a'i warchod.*

Mae gan Sir y Fflint dirwedd amrywiol yn amrywio o ddyffrynnoedd isel i lwyfandiroedd uchel agored.

### ***Cadw'r amgylchedd***

Aber Afon Dyfrdwy, safleoedd madfallod dŵr Glannau Dyfrdwy a Bwcle a Mynydd Helygain yw'r safleoedd pwysicaf ar gyfer cadwraeth yn y sir ac maent i gyd wedi eu dynodi yn rhyngwladol. Mae gan y sir gyfanswm o dros 23 o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA). Mae coetiroedd yn gorchuddio 8.8% o'r sir - llawer is na chyfartaledd Cymru, sef 14%. O'i gymharu â sawl ardal yng Nghymru, mae'r sir yn bennaf drefol/diwydiannol.

### ***Perygl llifogydd***

Mae Sir y Fflint yn agored i risg gyfun bosibl o lifogydd afon, llifogydd llanw a llifogydd arfordirol. Mae problemau draenio trefol a phroblemau dŵr wyneb hefyd wedi cyfrannu at lifogydd yn y gorffennol. Cafwyd llifogydd dros ardal eang yn y gorffennol, ac yn 2000, fe lifodd dŵr mewn i 150 o eiddo preswyl a masnachol. Mae 8,387 o eiddo mewn perygl o lifogydd ac mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn darparu gwasanaeth rhybuddion uniongyrchol i 7,541 eiddo mewn 14 o ardaloedd o fewn y llinell llifogydd eithafol.

## **Sir y Fflint Iachach**

*Darparu gwasanaethau gofal a chymorth o safon uchel ar gyfer y rheiny sydd ag anghenion iechyd meddwl a chorfforol a hyrwyddo dewisiadau ffordd o fyw amgen a chyfrifol er mwyn ymestyn dewis personol ac annibyniaeth.*

### **Ffyrdd iach o fyw**

O'i gymharu â chyfartaledd Cymru, mae dinasyddion Sir y Fflint ar y cyfan yn fwy tebygol o wneud dewisiadau iach am eu ffordd o fyw. Fodd bynnag, dim ond tua thraean o'r boblogaeth o oedolion Sir y Fflint sy'n bodloni lefelau gweithgarwch corfforol a argymhellir ac yn bwyta'r pump y dydd. Mae 44% yn yfed mwy na'r canllawiau a argymhellir a 19% yn ysmegu.

### **Gordewdra**

Mae'r duedd tuag at gynnydd mewn gordewdra er gwaethaf blynyddoedd o hybu ffordd o fyw iach ac actif yn broblem. Mae bron i 58% o bobl sy'n byw yn Sir y Fflint dros eu pwysau neu'n ordew. Mae hyn yn cyfateb i gyfartaledd Cymru. Yn 2014/15, canfuwyd bod 25.5% o blant 4-5 oed yn Sir y Fflint yn ordew neu dros eu pwysau, ychydig yn is na Chymru gyfan (26.3%) ond yn uwch na Lloegr (21.9%). Mae merched 4-5 oed yn fwy tueddol o fod yn ordew neu dros eu pwysau na bechgyn o'r un oed, er bod y ffigurau wedi bod yn weddol sefydlog ers 2011-12. Mae'r duedd hirdymor yn y gyfran o bobl sydd dros eu pwysau neu'n ordew hefyd yn debygol o achosi cynnydd mewn problemau iechyd cronig, a bydd hyn yn effeithio ar ddisgwyliadau oes iach yn y dyfodol.

### **Salwch cronig a chyfyngus**

Mae Cyfrifiad 2011 yn dweud wrthym fod gan 9,650 (19.5%) o bobl salwch cyfyngus hirdymor. Erbyn 2035 rhagwelir y bydd y nifer yn cynyddu tua 4,450.

Rhwng 2011 a 2016 mae nifer y bobl sydd â chyflyrau cronig fel pwysedd gwaed uchel, asthma, methiant y galon a chlefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint wedi cynyddu. Y cynnydd mwyaf oedd diabetes (1,400 o gleifion).

### **Imiwneiddio**

Mae mwy o blant pedair oed yn Sir y Fflint (91%) yn gyfredol gyda'u brechiadau o gymharu â chyfartaledd Cymru (86%). Mae hyn fodd bynnag yn dal yn llawer is na'r gyfradd darged o 95%.

### **Iechyd Meddwl**

Mae 10.3% o'r boblogaeth yn dweud eu bod yn cael triniaeth ar gyfer salwch meddwl, sydd ychydig yn is na chyfartaledd Cymru (12%). Sir y Fflint yw'r 5<sup>ed</sup> uchaf yng Nghymru am wneud atgyfeiriadau at wasanaethau iechyd ar gyfer camddefnyddio



sylweddau (1,550 yn 2014/15) a Sir y Fflint yw'r pymthegfed yng Nghymru am dderbyniadau i ysbytai alcohol penodol.

Rhagwelir bod y problemau iechyd meddwl ar gynydd ar draws Gogledd Cymru, a rhagwelir cynnydd o 1,000 o bobl rhwng 2015 a 2035 yn Sir y Fflint.

### ***Disgwyliad oes hirach***

Mae disgwyliad oes yn gwella ar gyfer pob grŵp yn Sir y Fflint ac ar y cyfan, tra bo nifer y blynyddoedd a dreulir mewn iechyd da ar gyfer dynion a merched yn debyg i gyfartaledd Cymru, mae gwahaniaeth o un ar ddeg mlynedd rhwng merched sy'n byw yn ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig Sir y Fflint.

Rhagwelir y bydd disgwyliad oes yn parhau i wella, ac mae disgwyl i boblogaeth y rhai 65 oed gynyddu o 31,000 yn 2015 i 46,100 erbyn 2039.

Disgwylir y bydd nifer y bobl 65 oed a throsodd sy'n derbyn gwasanaethau preswyl bron yn dyblu erbyn 2035, a disgwylir i'r nifer y bydd angen gofal nyrsio arbenigol arnynt gynyddu'n sylweddol.

Mae gwell disgwyliadau oes hefyd yn golygu bod pobl ag anghenion cymhleth yn byw yn hirach nag erioed o'r blaen, a gallai hyn hefyd arwain at alwadau cynyddol ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, ac ar ofalwyr di-dâl.

### ***Pobl sy'n byw gyda dementia***

Yn y pum mlynedd rhwng 2011 a 2016, mae nifer y bobl sy'n byw gyda dementia wedi cynyddu o 500 i 700. Rhagwelir y bydd y nifer yn cynyddu o tua 1,350 (66%) rhwng 2015 a 2030. Mae hyn yn cyfateb i'r boblogaeth sy'n heneiddio a chynnydd mewn disgwyliadau oes.

### ***Gofalwyr***

Yn ôl Cyfrifiad 2011, roedd bron i 17,650 o bobl yn Sir y Fflint yn darparu gofal di-dâl, ac o'r rheini, 25% yn darparu 50 awr neu fwy o ofal yr wythnos. Rhagwelir y bydd y ffigur hwn yn cynyddu o 700 rhwng 2011 a 2035. Mae hyn yn cael effaith sylweddol ar les economaidd a chymdeithasol y gofalwyr, yn ogystal â'r rhai sy'n derbyn gofal. Mae nifer y bobl hyn sy'n darparu gofal yn cynyddu, gyda thua dwy ran o dair o bobl 50 oed neu drosodd, a thros 24% o bobl 65+ oed.

### ***Byw mewn unigedd***

Rhwng 2001 a 2015, bu i nifer y cartrefi un person yn Sir y Fflint gynyddu o 2,150. Mae bron i hanner yr holl aelwydydd un person yn bensiynwyr sy'n byw eu hunain. Yn 2014, roedd 8,950 o gartrefi pensiynwyr sengl. Rhagwelir y bydd y nifer o gartrefi pensiynwyr sengl yn cynyddu o 3,900 rhwng 2015 a 2039.

### ***Plant a phobl ifanc***

Bu cynnydd o 40% yn nifer y plant a hawliodd Lwfans Byw i'r Anabl yn 2016, sydd yn debyg yn rhanbarthol (Gogledd Cymru) ac yn genedlaethol (Cymru). Mae gweithwyr iechyd proffesiynol yn credu bod y cynnydd hwn yn sgil gwell cyfraddau goroesi, genedigaethau lluosog a mamau hŷn.

## Sir y Fflint Mwy Cyfartal

*Rhoi cyfleoedd bywyd cyfartal i bawb beth bynnag fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau.*

### Addysg

Mae cefnogaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol a chynhwysiant cymdeithasol yn dda. Mae trefniadau diogelu'n gadarn ac yn cael eu monitro'n effeithiol. Mae lefelau absenoldeb heb awdurdod yn yr ysgolion cynradd ac uwchradd yn parhau'n sylweddol is na'r cyfartaledd cenedlaethol, a gyda'r ysgolion uwchradd yn cyflawni'r lefel genedlaethol isaf o 0.4%.

Er bod lefelau cyrhaeddiad ar gyfer plant sy'n derbyn prydau ysgol am ddim yn Sir y Fflint wedi gwella'n sylweddol ers 2012, mae'n parhau yn is na chyfartaledd Cymru. Mae hyn yn parhau ym mlwyddyn 6 (Cyfnod Allweddol 2). Yng Nghyfnod Allweddol 4 mae'r bwlch cyrhaeddiad rhwng y rhai sy'n derbyn prydau ysgol am ddim a'r rhai sydd ddim bron yn 31% (33% o'i gymharu â 64%). Mae'r bwlch cyrhaeddiad Cymru gyfan yn 32%.

### Tai Fforddiadwy

Yn gyffredinol mae lefelau incwm tŷ yn Sir y Fflint yn is na chyfartaledd cenedlaethol Prydain Fawr ac yn 2015 rhagwelwyd bod cyfartaledd incwm tŷ ond yn 95% o'r ffigur cenedlaethol.

Roedd pris tŷ cyfartalog yn Ebrill 2016 yn £152,250, 5.6 gwerth yr incwm tŷ cyfartalog o £27,300 a 10.1 gwaith yr isaf o £15,000. Mae hyn yn awgrymu y byddai bod yn rhan o'r farchnad dai fel perchennog tŷ ymhell o gyrhaeddiad y teulu cyffredin.

Ar 31 Mawrth 2015 roedd yna 10,279 annedd o fewn y sector tai cymdeithasol yn yr ardal, 158 fesul 1,000 o dai, o'i gymharu â lefel Cymru gyfan sef 175.)

Mae'r angen cyffredinol am dai cymdeithasol tair llofft yn uwch (65%) na'r ffigur Cymru gyfan (48%). Yn gyffredinol mae llai nag 8% o stoc mewn llety un ystafell wely.

Ers 1996, mae dros 1,600 o eiddo tai cymdeithasol wedi eu gwerthu o dan y cynlluniau hawl i brynu. Er bod rhywfaint o stoc wedi'i ddisodli, mae yna ddiffyg newid un am un uniongyrchol. Yn gyffredinol mae hyn wedi lleihau'r stoc sydd ar gael i ddiwallu'r angen am dai cymdeithasol.

Mae'r sector rhentu preifat yn cynnwys 12% o stoc tai Sir y Fflint ac mae wedi cynyddu'n sylweddol (175%) dros y 25 mlynedd diwethaf.

Erbyn 2030, mae rhagolygon yn dangos y bydd yna orgyflenwad o leoedd tai gwarchod yn Sir y Fflint a thangyflenwad o ofal preswyl, cartrefi nyrsio a thai â gofal ar draws yr ardal.

### **Disgwyliad oes hirach**

Mae'r gymhareb o bobl hŷn fesul 100 o bobl oed gwaith sydd â rhywun yn ddibynnol arnynt yn 32.7. Mae hyn yn uchel o'i gymharu â chyfartaledd y DU. Mae hwn yn ffactor sylweddol i Sir y Fflint yn y dyfodol gan y rhagwelir y bydd y nifer o bobl hŷn yn cynyddu'n sylweddol dros yr 20 mlynedd nesaf ac erbyn 2039 bydd 29.2% o'r boblogaeth dros 65 a 6.6% dros 85 oed.

## **Sir y Fflint â Chymunedau Cydlynol**

*Cymunedau yn mwynhau safon bywyd, yn ddiogel ac wedi'u cysylltu'n dda, ac yn lleoedd lle mae pobl yn teimlo eu bod yn perthyn ac yn cefnogi ei gilydd.*

### **Tai**

Mae oddeutu 67,550 o anheddau yn Sir y Fflint ar hyn o bryd. Yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2016, adeiladwyd 662 o gartrefi newydd, bron i ddwbl y nifer a ragwelwyd i ddiwallu gofynion twf y boblogaeth. Yn y deng mlynedd hyd at fis Mawrth 2016 ar gyfartaledd cwblhawyd 405 o anheddau newydd neu drawsnewidiadau bob blwyddyn.

### **Unigedd Gwledig**

Mae unigedd o fewn y gymuned wledig yn broblem arbennig ar gyfer y rhai sy'n hŷn, iau neu ar incwm is a gall gyfrannu at broblemau iechyd a lles eraill. Nid yw unigedd ar gyfer yr henoed, yn amlwg, wedi'i gyfyngu i gymunedau gwledig gydag un o bob chwe aelwyd yn Sir y Fflint wedi'i feddiannu gan bensiynwr sengl.

Mae tair ardal yn Sir y Fflint ymysg y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru ar gyfer mynediad at wasanaethau – Trelawnyd a Gwaenysgor, Caerwys a Gronant. Mae'r ardaloedd hyn yn cynnwys poblogaeth o oddeutu 4,650 o bobl.

I gefnogi a chynnal argaeledd cludiant cyhoeddus, mae gwasanaeth cludiant cymunedol lleol yn cael ei ddatblygu.

### **Gwirfoddoli**

Yn 2014/15 lleolwyd 777 o wirfoddolwyr gan Gyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint a darparwyd cyrsiau hyfforddiant ar gyfer 350 o gyfranogwyr; derbyniwyd ac ymatebwyd i dros 10,000 o ymholiadau cyffredinol; derbyniwyd ac ymatebwyd i 365 o ymholiadau am gyllid; cynorthwywyd grwpiau gwirfoddol i dderbyn bron i £1m o gyllid a darparwyd bron i £7,500 o gyllid drwy grantiau a chynlluniau benthyca.

### **Cynhwysiant Cymdeithasol**

Mae 82% o bobl yn cytuno bod ganddynt 'ymdeimlad o berthyn i'r ardal leol'. Mae 71% hefyd yn cytuno bod 'pobl yn yr ardal leol o gefndiroedd gwahanol yn dod ymlaen yn dda gyda'i gilydd' ac 'mae pobl yn yr ardal leol yn trin ei gilydd â pharch ac ystyriaeth'.

### **Cynhwysiant Digidol**

Ar y cyfan, mae'r tebygolrwydd o allgau digidol yn Sir y Fflint yn uchel ac mae'r gyfradd o aelwydydd gyda chysylltiad i'r rhyngwrwyd yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Erbyn dechrau 2016, roedd oddeutu 16% o'r holl breswylwyr 16+ oed erioed wedi defnyddio'r rhyngwrwyd neu heb ei ddefnyddio ers dros dri mis.

Amcangyfrifir bod 87% o eiddo yn gallu derbyn signal 3G dibynadwy gan y pedwar prif weithredwyr ffonau symudol ond dim ond 3% sy'n gallu derbyn signal 4G dibynadwy ar gyfer yr holl weithredwyr. Mae hyn yn cymharu â 88% a 46% yn y drefn honno ar lefel y DU.

Mae 95% o aelwydydd yn Sir y Fflint yn derbyn cyflymder band eang o 10 megabit yr eiliad (Mbps) fel isafswm ac mae band eang cyflym iawn ar gael i 78% o eiddo.

### ***Trais Domestig***

Mae data 2015/16 yn dangos y cofnodwyd oddeutu 340 o droseddau domestig gyda thrais. Roedd dros 50% o'r achosion yn cynnwys plant o dan 16 oed, a 30% yn cynnwys plant o dan 5 oed. Cofnodwyd 270 o droseddau rhywiol yn yr un cyfnod. Mae merched yn fwy tebygol o brofi trais domestig neu ddiodef troseddau rhywiol na dynion. Roedd oddeutu 80% o ddiodefwr y troseddau hyn yn ferched.

## **Sir y Fflint gyda diwylliant bywiog ac iaith Gymraeg sy'n ffynnu**

*Mae treftadaeth, diwylliant a dwyieithrwydd yn cael eu gwerthfawrogi fel rhan o fywyd cymunedol ac yn darparu cyfleoedd ar gyfer gweithgarwch cymunedol a chyswllt cymdeithasol gwerthfawr.*

### **Yr Iaith Gymraeg**

Er i niferoedd y siaradwyr Cymraeg gynyddu rhwng 1981 a 2001, maent wedi gostwng mewn niferoedd yn y blynyddoedd diwethaf. Mae cyfran o siaradwyr Cymraeg o fewn y boblogaeth wedi bod yn gostwng yn araf ers nifer o genedlaethau yn Sir y Fflint. Amcangyfrifir bod 13.2% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg gyda'r lefel uchaf yn gyffredinol yn yr ardaloedd gwledig (y cyfartaledd i Gymru yw 19%).

Yn y flwyddyn ysgol 2015/16, roedd 5 ysgol gynradd allan o 67 yn Sir y Fflint yn ysgolion Cymraeg iaith gyntaf neu'n ddwyieithog, ac roedd 6% o ddisgyblion ysgolion cynradd y Sir yn mynychu. Dim ond un ysgol uwchradd o'r naw sy'n darparu addysg cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog, ac yr oedd 5% o boblogaeth disgyblion ysgolion uwchradd Sir y Fflint yn mynychu.

### **Twristiaeth**

Amcangyfrif mewn cyfanswm bod twristiaeth wedi dod ag oddeutu £238.7 miliwn i'r economi leol yn 2015. Yn y blynyddoedd diweddar, mae cynnydd sefydlog yn y nifer yr ymwelwyr i'r ardal, roedd dros 3.6 miliwn o ymwelwyr yn 2015, roedd 2.8 miliwn yn ymwelwyr dydd. Roedd y nifer o bobl a gyflogir yn naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol wedi cynyddu hefyd (o 2,850 swydd cyfwerth ag amser llawn yn 2004 i 3,150 2015). Mae mewnbwn yr economi leol wedi cynyddu o £144.7 miliwn i £238.7 miliwn yn ystod yr un cyfnod, gan gefnogi dros 3,150 o swyddi (rhwng 4-5% o gyflogaeth).

### **Hamdden a Diwylliant**

Mae Sir y Fflint mewn lle da o ran cyfleusterau adeiladau a'r amgylchedd naturiol, sydd yn cael effaith gadarnhaol ar weithgaredd corfforol a lles. Mae canolfan sglefrio yng Nghanolfan Hamdden Glannau Dyfrdwy (Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Iâ), pedwar pwll nofio a pedair canolfan chwaraeon sy'n gysylltiedig ag ysgolion uwchradd. Mae 160 o feysydd chwarae plant, 13 ardal gemau aml-ddefnydd, 10 ardal chwarae i gyfleusterau olwyn a 7 cae gwair artiffisial.

Yn 2015/16, cofnodwyd bron i 1.5 miliwn o ymweliadau gweithgarwch corfforol, gan roi Sir y Fflint y 5ed uchaf o ran cyfranogiad yng Nghymru. Mae bron i hanner holl blant 7-16 oedd yn Sir Y Fflint (49%) yn cymryd rhan mewn o leiaf 3 sesiwn chwaraeon yr wythnos.

Yn 2016, gan weithio mewn partneriaeth â Chynghorau Tref a Chymuned, Urdd Gobaith Cymru a Gweithredu dros Blant, cynhaliwyd cynlluniau chwarae'r haf mewn 60 cymuned a chofnodwyd 19,297 o ymweliadau, gan gynnwys darpariaeth ar gyfer 31 o blant gydag anableddau.

Dywedodd 99% o ddefnyddwyr llyfrgell bod llyfrgelloedd Sir y Fflint yn 'dda' neu'n 'dda iawn', a rhwng 2014/15 a 2015/16 bu i'r aelodaeth gynyddu 5% (aelodaeth y DU wedi gostwng 4% yn ystod yr un cyfnod). Mae saith llyfrgell yn bodloni'r safon cenedlaethol mynediad 2.5 millitr ar gyfer lleoliadau llyfrgell.

Y prif ddarparwr o ran profiad celfyddydau o fewn Sir y Fflint yw Theatr Clwyd, theatr a chwmmni cynhyrchu a adnabyddir yn rhyngwladol sydd yn denu oddeutu 200,000 o gynulleidfaoedd ac ymwelwyr bob blwyddyn. Mae adeilad y theatr hefyd yn cynnwys oriel ac ardal i gynnal digwyddiadau ymgysylltu â'r gymuned.

Mae hygyrchedd ac argaeledd lleoliadau celfyddydau cymunedol eraill yn brin ar hyn o bryd o fewn Sir y Fflint, yn amlwg o'r nifer isel o leoedd perfformio ac oriel.

Yn Sir y Fflint mae digon o ran hygyrchedd i gael deunyddiau archif gyda swyddfa gofnodion ym Mhenarlâg. Nid oes llawer o amgueddfeydd, gyda'r amgueddfeydd wedi eu lleoli naill ai mewn llyfrgelloedd neu mewn parciau.



## **Sir y Fflint sy'n Cyfrannu at Les Byd-eang**

*Gweithredu er mwyn gwarchod yr amgylchedd lleol a hyrwyddo ac annog ymgysylltiad cymunedol.*

### ***Ailgylchu a lleihau gwastraff***

Mae Sir y Fflint yn cynhyrchu tua 85,000 tonn o wastraff trefol pob blwyddyn. Yn 2004/05 dim ond 22% o'r gwastraff a gasglwyd oedd yn cael ei aildefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio. Fodd bynnag, erbyn 2014/15 roedd y ganran hon wedi codi i 55%, sef ychydig yn is na chyfartaledd Cymru o 56.2%. Ond mae angen buddsoddiad sylweddol o hyd i gyrraedd y targed Ewropeaidd o 75% erbyn 2025.

Yn Sir y Fflint, rhwng 2004/05 a 2014/15 cludwyd 5,000 yn llai o wastraff y flwyddyn i safleoedd tirlenwi (-6%). Cyfartaledd Cymru gyfan ar gyfer yr un cyfnod yw -20%.